**Dogfen hawdd ei deall**

# Ein cynlluniau i wella cyfleoedd oriau dydd, gyda'r nos ac ar benwythnosau i unigolion sydd ag anableddau dysgu yn Rhondda Cynon Taf.

**Rhowch wybod i ni beth yw eich barn erbyn 30 Mehefin 2023**



Cafodd y ddogfen yma ei hysgrifennu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o **'Ymgynghoriad Gwasanaethau Oriau Dydd Anableddau Dysgu 2023'.**

# Sut i lenwi'r ffurflen ymateb yma




Dyma gyfres o gwestiynau ynghylch ein cynlluniau i ddiweddaru gwasanaethau Anableddau Dysgu yn Rhondda Cynon Taf.



Hoffen ni wybod eich barn chi. Gwnewch ymdrech i esbonio eich atebion. A nodwch eich sylwadau a'ch syniadau personol hefyd.



Efallai y bydd angen cymorth arnoch chi i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bydd geiriau glas yn anodd eu deall. Bydd y geiriau yma'n cael eu hegluro mewn blwch oddi tanyn nhw.

RHONDDA CYNON TAF

Pan mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hynny'n golygu **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.**




Dychwelwch y ffurflen yma aton ni erbyn

**30 Mehefin 2023**



Mae modd i ffurflenni cais gael eu dychwelyd i unrhyw un o'n Canolfannau Learning Curve



Neu drwy e-bostio: RhaglenDrawsnewidAnableddauDysgu@rctcbc.gov.uk

# Cyflwyniad



Ym mis Mai 2023, cytunodd Cyngor Rhondda Cynon Taf i wella eu Gwasanaethau Anableddau Dysgu Oriau Dydd mewn ymateb i Ymgysylltiad Fy Niwrnod i, Fy Newis i.




**Fe roddodd Fy Niwrnod i, Fy Newis i** y cyfle i unigolion ag anableddau dysgu a phobl eraill i rannu pethau sy'n bwysig iddyn nhw, a sut gallai eu diwrnod nhw fod yn well.

Mae'r Cyngor wedi cynnig model gweithredu newydd wedi'i gydgynhyrchu ar gyfer y Gwasanaethau Oriau Dydd




Bydd gyda'r model newydd tair lefel o gymorth, yn seiliedig ar anghenion unigolion:

- Cymuned a Chyflogaeth
- Gwneud y Mwyaf o Gysylltiadau yn y Gymuned
- Cynnig y Cyngor



**Mae wedi'i gydgynhyrchu** yn golygu bod y Cyngor ac unigolion sydd ag anabledd dysgu wedi dod at ei gilydd i wneud penderfyniadau.




Drwy ganolbwyntio ar ddewis personol a lles yr unigolyn, bydd y model yma yn helpu pobl i deimlo'n annibynnol tra'u bod nhw'n cael eu cefnogi yn eu cymunedau lleol.

Rydyn ni nawr yn gofyn i chi ein helpu ni i wneud rhai penderfyniadau am y pethau yma.

## Cymuned a Chyflogaeth



Ar y lefel yma, bydd unigolion yn cael eu cefnogi i gydnabod eu cryfderau, eu rhwydweithiau cymorth a'u hopsiynau cymorth yn y gymuned i gynnal eu hannibyniaeth, eu hiechyd a'u lles.

Byddai'r cynnig yma yn addas ar gyfer unigolion sydd ag anghenion cymorth isel ac mae'n cynnwys:




- defnyddio adnoddau yn y gymuned megis gwasanaethau hamdden, llyfrgelloedd, a grwpiau mynediad agored i ddarparu gweithgareddau a chysylltiadau cymdeithasol i bobl mewn lleoliad cymunedol.



- defnyddio adnoddau yn y gymuned i ddarparu gweithgareddau megis hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth i bobl yn eu cymuned leol.

- Adolygu prosiectau anabledd dysgu presennol y Cyngor i ailganolbwyntio'r rhain fel mentrau cymdeithasol neu gyfleoedd gwaith naill ai trwy Vision Products neu leoliadau eraill yn y gymuned.

**Ydych chi'n cytuno â hyn?**



Ydw ☐



Nac ydw ☐

Ddim yn siŵr ☐

**Hoffech chi ddweud rhywbeth arall am hyn?**

# Gwneud y Mwyaf o Gysylltiadau yn y Gymuned




Ar y lefel yma, bydd unigolion yn cael eu cefnogi i adennill eu hannibyniaeth a chael y cyfleoedd i gysylltu â'u cymunedau dros amser.

Byddai'r cynnig yma yn addas ar gyfer unigolion sydd ag anghenion ynglŷn â chymorth, ac mae'n cynnwys



- rhaglen gymorth sy'n helpu unigolion i arwain ar ddatblygu eu gwasanaethau eu hunain



- datblygu mentrau bach




- taliadau uniongyrchol




- cefnogi canolfannau yn y gymuned

## Ydych chi'n cytuno â hyn?





- Ydw ☐
- Nac ydw ☐
- Ddim yn siŵr ☐

## Hoffech chi ddweud rhywbeth arall am hyn?


______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

# Cynnig y Cyngor



Ar y lefel yma, byddai unigolion yma yn cael cefnogaeth i fanteisio ar gefnogaeth yn y ganolfan yn ogystal â rhai grwpiau yn y gymuned.



Bydd ffocws ar les ac iechyd yr unigolyn gyda chymorth gan garfanau aml-ddisgyblaethol (er enghraifft, iechyd, rheoli gofal).



Byddai'r cynnig yma yn addas ar gyfer unigolion sydd ag anghenion cyfathrebu ac iechyd mwy cymhleth, ac mae'n cynnwys:

- cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, er enghraifft, technoleg gynorthwyol i gynnig ystod o ddewisiadau a gweithgareddau



- cymorth arbenigol i helpu unigolion i symud trwy lwybrau i dderbyn cymorth sy'n llai dwys




- dwy ganolfan oriau dydd bwrpasol i'r Dwyrain a'r Gorllewin, ynghyd â dau grŵp llai yn y gymuned

Ydych chi'n cytuno â hyn?



Ydw ☐



Nac ydw ☐

Ddim yn siŵr ☐


**Hoffech chi ddweud rhywbeth arall am hyn?**

______________________________________

______________________________________

______________________________________

______________________________________




## Unrhyw beth arall

**Oes yna unrhyw beth hoffech chi ei ddweud am ein cynlluniau?**

# Cydraddoldeb




Rydyn ni eisiau sicrhau bod popeth rydyn ni'n ei wneud yn deg i bawb. **Cydraddoldeb** yw'r enw ar hyn.

> **Mae cydraddoldeb** yn golygu trin pobl yn deg a sicrhau bod gyda nhw'r un cyfleoedd mewn bywyd.

Rydyn ni am sicrhau bod cydraddoldeb yn bodoli i bawb er gwaethaf:



- Eu hoedran
- P'un a ydyn nhw'n fenyw neu'n ddyn neu'n disgrifio'u hunain mewn ffordd arall
- Eu hanabledd
- Eu hil neu gefndir Er enghraifft du, gwyn neu Asiaidd
- P'un a ydyn nhw'n hoyw, lesbiaidd, deurywiol neu'n heterorywiol
- Eu crefydd
- P'un a ydyn nhw'n briod, yn sengl neu mewn partneriaeth sifil
- Eu bod yn feichiog
- Yr iaith sy'n well gyda nhw ei defnyddio

**Ydych chi o’r farn y byddai ein cynlluniau'n trin pobl yn deg ac yn sicrhau bod gyda nhw'r un cyfleoedd mewn bywyd?**



**Ydw** ☐



**Nac ydw** ☐



**Ddim yn siŵr** ☐




**Hoffech chi ddweud rhagor i ni am gydraddoldeb?**
Defnyddiwch y blwch isod i ddweud eich dweud:

# Y Gymraeg




Rydyn ni eisiau sicrhau bod modd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg pan maen nhw eisiau, a bod mwy o bobl yn cael cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod ein cynlluniau ddim yn ei gwneud hi'n anoddach i bobl ddefnyddio'r Gymraeg os ydyn nhw eisiau.

**Ydych chi o'r farn y byddai cynlluniau'r Cyngor yn ei gwneud hi'n anoddach i bobl ddefnyddio'r Gymraeg os ydyn nhw eisiau?**



**Ydw** ☐



**Nac ydw** ☐



**Ddim yn siŵr** ☐




**Sut ydych chi'n meddwl y gallen ni newid ein cynlluniau i'w gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?**
Defnyddiwch y blwch isod i ddweud eich dweud:




**Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud wrthon ni am sut y gallai ein cynlluniau effeithio ar y Gymraeg?**
Defnyddiwch y blwch isod i ddweud eich dweud:




# Dywedwch ychydig bach amdanoch chi wrthon ni

Mae angen i ni wybod ychydig amdanoch chi fel bod modd i ni ddeall eich atebion yn well.




**Beth yw'ch cod post?**

______________________________________________



**Beth yw eich oedran?**

______________________________________________



**Pam ydych chi wedi llenwi'r ffurflen yma?**

Rydw i'n berson sydd ag anabledd dysgu ☐

Rydw i'n deulu/cynhaliwr i berson sydd ag anabledd dysgu ☐

Rydw i'n eiriolwr ar gyfer person sydd ag anabledd dysgu ☐

Staff ☐

Arall

______________




## Diolch

Diolch i chi am lenwi'r ffurflen yma




Dychwelwch y ffurflen yma aton ni erbyn **30 Mehefin 2023**



Mae modd i ffurflenni cais gael eu dychwelyd i unrhyw un o'n Canolfannau Learning Curve



Neu drwy e-bostio: [RhaglenDrawsnewidAnableddauDysgu@rctcbc.gov.uk](mailto:RhaglenDrawsnewidAnableddauDysgu@rctcbc.gov.uk)

# Geiriau anodd

## Fy Niwrnod I, Fy Newis I

Fe roddodd Fy Niwrnod i, Fy Newis i y cyfle i unigolion ag anableddau dysgu a phobl eraill  i rannu pethau sy'n bwysig iddyn nhw, a sut gallai eu diwrnod nhw fod yn well.

## Cydgynhyrchu

Mae cydgynhyrchu yn golygu bod y Cyngor ac unigolion sydd ag anabledd dysgu wedi dod at ei gilydd i wneud penderfyniadau.

## Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn golygu trin pobl yn deg a sicrhau bod gyda nhw'r un cyfleoedd mewn bywyd.